# Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-31-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 21 Tachwedd 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Rosemary Butler, Gwyn Griffiths

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-30-2006

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i adrodd arnynt symudodd y Cadeirydd yn syth at drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1399 – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor. Holodd Aelodau beth oedd yr arfer blaenorol o ran taliadau Swyddogion Canlyniadau. Eglurodd Ms Jackson bod y Gorchymyn hwn yn dirymu gorchmynion blaenorol ac yn uwchraddio'r taliadau.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

LC1408 - The Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor. Gofynnwyd a oedd y Rheoliadau hyn yn awdurdodi cynnyrch GM. Eglurodd y Cynghorydd Cyfreithiol mai bwriad y Rheoliadau hyn yw atal cynnyrch GM rhag cyrraedd y farchnad.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.1 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1400 – Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1401 – Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1404 - The Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006

## Camau i’w cymryd

Nid oedd unrhyw bwyntiau gweithredu.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2006.